# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 19 Ionawr 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 22 Ionawr 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 29 Ionawr 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn Arweinydd y Cyngor

**PWNC** Gwaredu diddordeb y Cyngor o dir o fewn Stad Ddiwydiannol Penygroes.

**PENDERFYNIAD –** Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn darn o dir sydd wedi'i leoli o fewn Stad Ddiwydiannol Penygroes ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Dyfrig Siencyn (dirprwyo dros Cynghorydd Craig ab Iago) |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gethin Jones<br>Syrfëwr Stadau Cynorthwyol |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 19 Ionawr 2024 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc:**

Gwaredu diddordeb y Cyngor o dir o fewn Stad Ddiwydiannol Penygroes.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:**

Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn darn o dir sydd wedi'i leoli o fewn Stad Ddiwydiannol Penygroes ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**

Galluogi'r Cyngor i waredu ar ddiddordeb rhydd-ddaliadol y llecyn tir a aminellir mewn coch ar y cynllun atodol, sydd heb ddefnydd gweithredol, a sydd yn fwrdwn o ran cynnal a sydd yn weddill i anghenion y Cyngor.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae cais wedi ei dderbyn gan Mr Bryn Roberts i brynu darn bach o dir sy'n mesur tua 259$m^2$ gyferbyn ag unedau diwydiannol y Cyngor o fewn Stad Ddiwydiannol Penygroes. Nid yw'r safle hwn wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers i'r unedau diwydiannol gael eu datblygu ac mae llysiau'r dial yn bresennol ar y safle, sy'n cael ei drin ar gost i'r Cyngor ddwywaith y flwyddyn. Bwriad y darpar brynwr yw clirio'r

safle a chreu gofod storio ychwanegol mewn cyswllt a'i fusnes Gwynedd Safeflue Specialists Cyf. Gan fod y darpar brynwr yn berchen ar eiddo cyfagos, ystyrir bod y safle yn fwy gwerthfawr i'r prynwr nac unrhyw brynwr arall, gyda hynny'n cael ei adlewyrchu yn y pris prynu.

Byddai caniatáu'r argymhelliad a gwaredu'r eiddo yn uniongyrchol i Mr Bryn Roberts yn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen yn ddi-oed i waredu'r eiddo ac osgoi costau diangen mewn perthynas â chynnal y safle.

Nid oes unrhyw fwriad i dderbyn llai na gwerth y farchnad am yr eiddo.


**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**
Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**
Dim.

**Prif Swyddog Cyllid** – "Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol."

**Swyddog Monitro** – "Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisier."

**Aelod/au Lleol**: Cynghorydd Craig ab Iago – Dim wrthwynebiad.




Cynllun: Plan: **Gwerthiant i John Bryn Roberts**

Graddfa / Scale @ A4: 1:1,250

© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd

Dyddiad: Date: 06/02/2023